



**TGAU – NEWYDD**

3000N20-1A



**CYMRAEG IAITH**

**Uned 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

DYDD MAWRTH, 9 MAI 2017 – BORE

2 awr

**DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A**


3000N201A  
01

# TUDALEN WAG

## DARN DARLLEN 1

### Siart Siaradwyr Cymraeg

Mae'r graff isod yn dangos niferoedd y bobl oedd yn siarad Cymraeg ym mhob Cyfrifiad rhwng 1911 a 2001.



## DARN DARLLEN 2




Wyth rheswm da dros  
cyflwyno'r Gymraeg o'r crud



Wyddoch chi bod cyflwyno'r Gymraeg i'ch babi o'r  
cychwyn cyntaf yn...

**1** rhoi dechrau da i'ch plentyn dyfu'n ddwyieithog

**2** helpu eich plentyn wrth ddysgu darllen a chyfrif



**3** helpu eich plentyn i deimlo ei fod yn perthyn




**4** rhoi cyfle i wneud ffrindiau a chael profiadau newydd

**5** ei gwneud hi'n haws dysgu iaith arall

**6** agor y drws i ddiwylliannau eraill

**7** rhoi mantais yn y gwaith pan fydd  
eich plentyn yn hŷn



**8** gwneud yn siŵr bod eich plentyn yn cael y  
gorau o'r ddau fyd



## DARN DARLLEN 3

DEFNYDDIA DY DDWY IAITH  
ER MWYN...

...agor y drws i fwy o swyddi

➤ ...ENNILL CYFLOG UWCH ◀

...DATBLYGU SGILIAU MEDDWL UWCH

...llwyddo'n well yn yr ysgol/coleg

...cynnig gwasanaeth cwsmer gwych

<p>...medru dysgu iaith arall yn haws a chyfathrebu gyda mwy o bobl</p>	<p>...CODI DY HUNAN-HYDER A CHAEL DAU DDIWYLLIANT</p>	<p>...atal dechreuad symptomau demensia</p>
---	---	---

Yn gweithio ar ran  
Llywodraeth Cymru  
Working on behalf of the  
Welsh Government

## DARN DARLLEN 4

# Y GYMRAEG YN AGOR DRYSAU

Mae Darren Morris yn gweithio gyda phobl ifanc yn Sir y Fflint ac yn falch bod ei rieni wedi gwneud un penderfyniad pwysig ar ei ran flynyddoedd yn ôl...



**Ble cefaiest ti dy fagu?** Fe ges i fy magu yn Shotton, Glannau Dyfrdwy.

**Pa iaith oedd y teulu yn ei siarad?** Saesneg

**I ba ysgol gynradd est ti?** Ysgol Croes Atti yn y Fflint

**I ba ysgol uwchradd est ti?** Ysgol Maes Garmon yn yr Wyddgrug



**Pam gwnaeth dy rieni ddewis addysg Gymraeg i ti?** Roedd rhieni grŵp o ffrindiau roeddwn yn mynd i'r ysgol feithrin gyda nhw wedi penderfynu anfon eu plant i Ysgol Gymraeg Croes Atti er mwyn rhoi'r gorau o ddau fyd iddyn nhw. Penderfynodd Mam fy anfon i gyda nhw. Yng ngeiriau Mam, "y penderfyniad gora' wnes i erioed".

**Beth yw dy waith di?** 'Dw i'n Swyddog Datblygu Rhanbarth Fflint a Wrecsam i Urdd Gobaith Cymru.

**Wyt ti'n teimlo bod addysg Gymraeg a bod yn ddwyieithog wedi agor drysau i ti?** Yn bendant. Mae'r cyfleoedd a'r swyddi 'dw i wedi eu cael oherwydd fy mod yn ddwyieithog yn anhygoel, ac mae fy nheulu yn dweud yn aml mor genfigennus ydyn nhw o'r cyfleoedd hynny. Mi wnes i weithio yng Nglan-llyn yn arwain plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau amrywiol yn yr awyr agored cyn dod yn Swyddog Datblygu. Rydw i wrth fy modd gyda'r teithiau, yr adrannau, y gweithgareddau a'r hwyl – i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydw i'n gallu cyfathrebu mewn dwy iaith ac yn gallu addasu yn ôl y gynulleidfa sydd o 'mlaen i ar y pryd. Mae gen i sgiliau, felly, sy'n hanfodol ar gyfer byd gwaith. 'Dw i'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen mewn dwy iaith. Pa gyflogwr fyddai ddim yn gweld hynny'n fanteisiol?

**Oes gennyt ti deulu?** Oes mae gen i dri o blant.

**Wyt ti wedi dewis addysg Gymraeg i dy blant? Os felly pam?** Wrth gwrs, mae'r tri yn mynd i Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug. 'Dw'n meddwl ei bod yn bwysig i 'mhlant gael yr un addysg â minnau er mwyn iddyn nhw gael yr un cyfleoedd mewn bywyd. Mae'n bleser cael siarad Cymraeg gyda'r plant gartre ac o flaen teulu. Mae'r teulu yn hynod o falch ohonom ac yn mwynhau gwrandao arnom yn siarad Cymraeg.

**Mae dwy iaith yn well nag un – beth yw dy farn di?** Cytuno'n llwyr â hyn. Ni fyddwn wedi cael yr un profiadau heblaw fy mod i'n siarad Cymraeg a Saesneg. Does dim lot o bobl all ddweud eu bod nhw wrth eu bodd yn eu swydd, ond does dim byd gwell gen i na sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc yr ardal i gymdeithasu trwy'r Gymraeg.



## DARN DARLLEN 5

<b>BBC</b>		Chwilio	
Cymorth gartref	Yn yr ysgol	Eich profiadau	Eich cwestiynau

**Manteision Dwyieithrwydd**

**Cyfathrebu gyda'r teulu a'r gymuned gyfan**  
Mae bod yn ddwyieithog yn:

- creu pont rhwng cenedlaethau - er enghraifft, lle mae taid a nain / tad-cu a mam-gu yn siarad Cymraeg, a'r wyrion a'r wyresau'n cael addysg Gymraeg
- caniatáu i bobl ifanc chwarae rhan lawn ym mywyd y gymuned yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle gwneir defnydd helaeth o'r Gymraeg.

**Dau ddiwylliant**  
Mae bod yn ddwyieithog yn rhoi cyfle:

- i fod yn rhan o ddau ddiwylliant gwahanol
- i ddysgu idiomau a dywediadau, straeon gwerin a hanes, barddoniaeth, llenyddiaeth a cherddoriaeth.

**Derbyn ieithoedd a diwylliannau eraill**

- Gan fod dwy iaith yn rhoi profiad diwylliannol ehangach i bobl, yn aml iawn maent yn fwy parod i dderbyn gwahaniaethau mewn diwylliannau, credoau ac arferion y tu hwnt i'w profiad hwy eu hunain.

**Manteision i'r ymennydd**

- **Meddwl yn greadigol:** mae gan blant dwyieithog ddau air, os nad mwy, am bob gwrthrych a syniad. Golyga hyn y gall person dwyieithog ddod i feddwl yn fwy hyblyg.
- **Sensitifrwydd:** mae pobl ddwyieithog yn fwy sensitif i anghenion y gwrandawr oherwydd mae'n rhaid iddynt wybod pa iaith i siarad gyda phwy, a phryd.
- **Deallusrwydd:** mae ymchwil o bob cwr o'r byd yn dangos bod pobl ddwyieithog yn tueddu i wneud yn well mewn profion na phobl unieithog.
- **Darllen:** mae pobl ddwyieithog yn rhoi mwy o bwyslais ar ystyr geiriau yn hytrach na'u sŵn.

**Manteision addysgol**

- Mae canlyniadau arholiadau Cymru yn dangos bod perfformiad plant sy'n cael addysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyson uwch na pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Manteision o safbwynt cyflogaeth**

- Bydd gan berson sydd â dwy iaith ddewis ehangach o swyddi, wrth i'r galw am bobl sy'n siarad Cymraeg gynyddu yn y sector adwerthu, twristiaeth, cludiant, cysylltiadau cyhoeddus, bancio a chyfrifyddiaeth, gweinyddiaeth, cyfieithu, gwaith ysgrifenyddol, marchnata a gwerthu, y gyfraith ac addysgu.

**Mwy o hunan-barch**

- Mae gallu symud yn naturiol o un iaith i'r llall yn gwneud i blentyn deimlo'n fodlon gydag ef ei hun a'r hyn y gall ei wneud. Gall defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg roi hwb sylweddol i hunan-barch plentyn.

## DARN DARLLEN 6

## Su'mae, Shw mae

'Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg.'

Ei weld o ar ryw hysbyseb wnes i, wrth i mi aros am y bws i'r gwaith yn y bore. Do'n i ddim yn y tymer gora'- wel, ro'n i ar y ffordd i'r gwaith – a wnaeth hynna ddim helpu.

Betia i fod rhyw bwyllgor o ddynion canol oed wedi cael \*celc o bres am feddwl am hynna – 'Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg'. Ia, meddyliais, gan g'nesu i'r syniad, ac mi fetia i eu bod nhw mewn rhyw offis glân, braf ym Mae Caerdydd, pob un o'r diawliaid lwcus efo lle parcio personol a BMW'n aros amdanyn nhw. Neu, gwaeth fyth, yng Nghaernarfon. Ia! Caernarfon. Digon hawdd \*plagio gweddill Cymru i siarad Cymraeg pan ma' rhywun yn byw yn rhywle lle mae pawb, o'r hen bobol barchus i'r plant bach drwg yn siarad Cymraeg. Dim jest yn siarad Cymraeg, yn ffraeo ac yn chwerthin ac yn rhegi yn Gymraeg.

Iawn ta, meddyliais wrth i'r bws gyrraedd, mi dria' i. 'Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg.' Gawn ni weld pa mor hawdd ydy hi tu allan i'ch bybl Caernarfon chi.

"Tocyn un ffordd i dre', plîs." Dw i'n gwybod mai 'os gwelwch chi'n dda' ddylw'n i fod wedi deud, ond o'n i ddim isho swnio fel athro. Mi edrychodd arna' i am 'chydig eiliadau, cyn codi ei ysgwyddau mewn ystum 'dw i'm yn \*dallt'. Gofynnais eto'n Saesneg, a chael tocyn yn syth bin.

"Ga' i eistedd fa'ma, plîs?" Edrychodd yr hen ddynes i fyny arna' i fel taswn i'n bygwth dwyn ei *handbag*, a chlosiodd yn agosach at y ffenest cyn sbïo i ffwrdd. Dwn i ddim oedd hi'n dallt Cymraeg, ond doedd 'na ddim iaith rhyngom ni am weddill y daith.

Yr hogia' yn y gwaith; y dyn werthodd frechdan i mi i ginio; y ddynes yn y banc. Ges i "*You what?!*" ac "*I don't understand*" ac "*Eh?!?*" Roedd unrhyw Gymraeg ysgol fu gan y rhain wedi pylu ac wedi gadael ofn siarad yr iaith.

Roedd yr hogan ddel yn gweithio yn y caffi, ac roedd hynna'n dipyn o ryddhad. Saesnes oedd hi, wrth gwrs – r'on i'n cael hanner-sgwrs efo hi bob dydd, am y tywydd neu'r rygbi. Ond ro'n i wedi addo i mi fy hun... pob sgwrs...

"Su' mae. Ga' i baned o de, plîs?"

Edrychodd i fyny a'i llygaid yn ddisglair, a gwenodd yn llydan. "Do'n i ddim yn gwybod bo' chdi'n siarad Cymraeg!"

Manon Steffan Ross

celc o bres – llawer o arian  
plagio – swnian/poeni  
dallt – deall